


Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Gwella Rhan 2 ac Adroddiad Blynyddol ar gyflawni Amcanion Llesiant 2016/17



Cyflwyniad

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cyflawni amrywiaeth helaeth o waith sy'n cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal leol, a hynny yn amrywio o reoli cadwraeth a mynediad i'r cyhoedd, i gynnal yr economi leol a chymeradwyo datblygiadau tai fforddiadwy. Bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn diwallu disgwyliadau ein cwsmeriaid, yn breswylwyr ac yn ymwelwyr fel ei gilydd, a Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod o gynni economaidd.

Yn ôl deddfwriaeth Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella Blynyddol mewn dwy ran. Cyhoeddir Rhan 1 fis Ebrill, sy'n nodi pa welliannau y mae'n bwriadu eu gwneud yn y flwyddyn gyfredol i'w wasanaethau o ran ansawdd, effeithiolrwydd, mynediad, cynaliadwyedd a chostau. Mae'r Cynllun Gwella Rhan 2 hwn yn edrych yn ôl ar y flwyddyn flaenorol oedd yn diweddu ar yr 31ain o Fawrth, a rhaid ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref. Hefyd mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei Amcanion Llesiant ac i ddangos sut mae'r amcanion hynny yn cyfrannu at saith o Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru. Bob blwyddyn rhaid i gyrff gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n dangos y camau ymlaen a gymerwyd ganddynt i ddiwallu eu hamcanion. Er mwyn lleihau'r gofynion ar adnoddau, mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi cytuno i weithio i fformat cyffredin o Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r ddogfen hon yn Gynllun Gwella Rhan 2 yr Awdurdod yn ogystal â'i adroddiad blynyddol ar y camau a gymerwyd yn erbyn ei Amcanion Llesiant. Hefyd mae'r ddogfen yn ymgorffori o dan Llesiant Amcan 5 adroddiad cydraddoldeb blynyddol yr Awdurdod.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn y cynllun hwn rydym wedi amlygu'r modd y mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi'u hymgorffori yng ngwaith yr Awdurdod.

Gall sylwadau ar y Cynllun Gwella hwn neu fersiynau eraill o'r Cynllun Gwella gael eu hanfon ar e-bost at info@pembrokeshirecoast.org.uk gan nodi'r pwnc 'Cynllun Gwella' neu yn ysgrifenedig at APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro, SA72 6DY

Cefndir

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi yn 1952 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 612 cilomedr sgwâr, ac mae tua 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 o ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchenogaeth breifat a dim ond tua 1% y mae'r Awdurdod yn berchen arno.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol annibynnol ac iddo ddiben arbennig, a hynny o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 Aelod, y mae 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

Dibenion y Parc

Mae'r Ddeddf yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw:

- ❖ Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc
- ❖ Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Hefyd mae'r Ddeddf yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth fynd ar drywydd y dibenion uchod, i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Fel rhan o lywodraeth leol, hefyd mae'r Awdurdod yn cyfrannu at nifer o nodau ehangach Llywodraeth Leol o ran yr economi, iechyd, cynaliadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol. Yn ogystal mae'r Awdurdod yn bodloni'r dyheadau am wasanaethau cyhoeddus gwell a bennwyd mewn polisïau a deddfwriaeth gan gynnwys Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol sy'n pennu sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, a hynny nid gan yr Awdurdod yn unig ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Cyllid

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n penderfynu union wariant net yr Awdurdod drwy ddyrannu'r Grant Parciau Cenedlaethol blynyddol a'r ardoll, sydd wedi'i gwtogi 6.0% yn 2016/17 ar £3,940,000 gyda grant ychwanegol o £750,000 ar gael yn hwyr yn y flwyddyn ar gyfer prosiectau penodol. Yn ystod y flwyddyn gwnaed iawn yn rhannol am y gostyngiad hwn yn y Grant Parciau Cenedlaethol gan gynnydd yn yr incwm o werthu nwyddau yn y canolfannau, a mwy o incwm na'r disgwyl o'r taliadau meysydd parcio.

Amcanion Llesiant

Nid oedd Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Sir Benfro wedi'i gwblhau yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynllun, ac fel mesur dros dro mae'r Awdurdod wedi nodi saith o amcanion llesiant sy'n cyfrannu at y Nodau Llesiant. Er mwyn parhau i fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol, roedd yr Amcanion Llesiant y cytunwyd arnynt hefyd yn ffurfio Amcanion Gwelliant yr Awdurdod ar gyfer 2016/17.

Amcanion Llesiant APCAP	Cyfraniad i'r Nodau Llesiant
1. Annog a chynnal datblygu cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig mewn twristiaeth a hamdden.	Yn cyfrannu at 'Gymru Ffyniannus' a 'Chymru Gydnerth' drwy annog datblygu busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes a chynyddu nifer y swyddi tra'n annog pobl i beidio â defnyddio adnoddau naturiol anghynaliadwy. Dylai mwy o gyflogaeth gynnal 'Cymru Mwy Cyfartal' a hefyd gyfrannu i 'Gymru Iachach'.
2. Hyrwyddo a datblygu defnydd o reoli ecosystemau	Mae defnyddio rheoli ecosystemau yn dechneg allweddol wrth baratoi'r Asesiad Llesiant ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran sicrhau 'Cymru Gydnerth' ac wrth baratoi unrhyw Gynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol.
3. Galluogi ac annog mwy o bobl i wella eu llesiant drwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol waeth beth fo'u hamgylchiadau.	Mae gweithgareddau yng nghefn gwlad, megis cerdded, yn gallu gwella'r ymdeimlad o les, lleihau straen, a gall fod yn ysbrydoledig. Drwy hyrwyddo defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, p'un ag yw ar garreg drws pobl neu o fewn y Parc Cenedlaethol, ac annog gwirfoddolwyr a dileu rhwystrau i gael mynediad, mae'r amcan hwn yn cyfrannu at 'Gymru Iachach,' 'Cymru Mwy Cyfartal' a 'Chymru Cydlynus' a 'Chymru o Gymunedau Cydlynus'.
4. Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i wneud y mwyaf o'r Parc Cenedlaethol.	Eisoes mae nifer o gymunedau a grwpiau lleol yn ymgysylltu â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at waith yr Awdurdod, sy'n amrywio o ymateb i ymarferion ymgynghori i brosiectau gwella'r amgylchedd lleol. Bydd cynyddu graddfa a chwmpas y gwaith hwn yn ychwanegu at 'Gymru o gymunedau cydlynus'.
5. Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o waith a diwylliant yr APC.	Mae'r Awdurdod yn parhau i annog amrywiaeth mwy cynrychioliadol o bobl i ymgysylltu a chymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod ac yn y Parc Cenedlaethol. Bydd yn defnyddio ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol i ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngwaith a diwylliant yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.
6. Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o iaith, y celfyddydau a threftadaeth yr ardal.	Mae gan Sir Benfro ddiwylliant cyfoethog yn y celfyddydau, treftadaeth ac iaith. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel rhan o arbenigrwydd yr ardal sy'n cyfrannu at 'Gymru o ddiwylliant bywiog a iaith

	Gymraeg sy'n ffynnu'.
7. Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant bydeang.	Drwy leihau ein hól troed carbon yn barhaus a dilyn prosesau caffael cynaliadwy, mae'r Awdurdod hwn yn sicrhau ei fod yn cyfrannu at 'Gymru cyfrifol yn fyd-eang'. Mae'r amcanion Llesiant yn cefnogi Cymru gyfrifol yn fyd-eang drwy warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol, drwy ein cefnogaeth i'r economi leol a drwy ein darpariaeth addysg.

Hefyd sefydlwyd mesurau ar gyfer llywodraethu a phrosiectau eraill.

Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn y ddogfen hon drwyddi draw, rydym wedi tynnu sylw at y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 2016/17 sy'n ymgorffori'r egwyddorion datblygu cynaliadwy o fewn y Ddeddf.

➡ Tymor Hir

Cynllun Rheoli
Cenedlaethol

Adolygu'r Cynllun
Datblygu Lleol

Gwarchod y Parc -
gweithio gyda
thirfeddianwyr ar
gadwraeth

Gweithio gyda
Phlant a Phobl
Ifanc

➡ Ataliol

Prosiect Pwyth
mewn Pryd

Cynnal Llwybr yr
Arfordir

Cyfleoedd
Cerdded â
Chymorth

Cynghori
perchnogion
adeiladau a
safleoedd
hanesyddol

➡ Integreiddio

Ymwneud â'r
Bwrdd
Gwasanaethau
Cyhoeddus

Hwyluso'r
Gwasanaeth
Iechyd Naturiol
Gorllewin Cymru

Cronfa Datblygu
Cynaliadwy

Cefnogi'r
Bartneriaeth
Lonydd Glas

➡ Cydweithio

Gweithio gyda
thirberchnogion

Menter Awyr
Dywyll

Partneriaeth
Amgueddfa
Genedlaethol
Cymru ac Oriel y
Parc

Sgiliau ar Waith

➡ Cynnwys Defnyddwyr

Wardeniaid
Gwirfoddol

Parcmyn Ieuenctid

Arolwg o
Ddefnyddwyr
Llwybrau Cefn
Gwlad

Prosiect
Celfyddydau
Cymunedol ym
Melin Caeriw

Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant

Er mwyn mesur ein perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant mae'r Awdurdod wedi edrych ar gasglu data ar draws nifer o feysydd newydd ochr yn ochr â dangosyddion allweddol a statudol presennol. Bydd y data hwn yn ffurfio llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant yn y dyfodol. Cydnabyddir y bydd angen i'r dangosyddion a ddefnyddir addasu i newidiadau allanol, megis Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bod y dangosyddion hynny yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben wrth i'r data gael ei gasglu a'i gymharu flwyddyn ar ben blwyddyn yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn edrych ar sut y gall ddefnyddio data ansoddol i helpu i ddadansoddi ei gyfraniad a'i berfformiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant i roi dadansoddiad mwy cyflawn.



Rhedyn yn britho'r tir uwchben Marloes.

Amcan Llesiant 1: Annog a chynnal datblygu cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig mewn twristiaeth a hamdden.

Gweithgaredd: Paratoi CDLI diwygiedig gan gynnwys polisiâu datblygu economaidd cynaliadwy a gweithredu polisiâu cynllunio i gynnal economi leol gynaliadwy


- ➡ Cafodd y Cytundeb ar Gyflawni Cynllun Datblygu Lleol newydd yr Awdurdod (2015-2031) ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fis Gorffennaf 2016.
- ➡ Fel rhan o gasglu gwybodaeth i lywio'r cynllun newydd, roedd yr Awdurdod wedi gwahodd y cyhoedd, y tirberchnogion a'r datblygwyr i gyflwyno manylion safleoedd yr oeddent yn dymuno iddynt gael eu hystyried at unrhyw ddefnydd neu ailddefnydd. Mae'r Safleoedd Ymgeisiol wedi cael eu hasesu o ran eu haddasrwydd i gael eu datblygu, ac mae Cofrestr o'r Safleoedd Ymgeisiol wedi cael ei chyhoeddi.
- ➡ Roedd Arfarniad o Gynaliadwyedd oedd yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r CDLI yn asesu sut fydd y cynllun diwygiedig yn effeithio ar yr amgylchedd ac ar lesiant cymdeithasol ac economaidd y Parc. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn cael ei gynnal ar y cynigion.
- ➡ Mae'r Strategaeth a Ffeirir ar y Cynllun Datblygu Lleol drafft i'w gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar ôl yr 17^{eg} o Fai 2017.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Gweithredu Polisiâu Cynllunio i gynnal economi leol gynaliadwy


- ➡ Caiff hyn ei fonitro drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar Ddatblygu Lleol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi. Roedd yr adroddiad monitro yn nodi fel a ganlyn:

"mae'r Adroddiad ar Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn clustnodi bod y targed a bennwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol bod 33% o'r dyraniadau cyflogaeth/defnydd cymysg wedi cael caniatâd cynllunio erbyn blwyddyn ariannol 2014/15 heb ei wireddu. Ymhlith y rhesymau pam nad yw safleoedd wedi'u datblygu mae penderfyniadau'r tirberchennog, diffyg hyfywedd a diffyg cyllid cyhoeddus i ddatblygu'r safleoedd. Wrth ddiweddarau'r sail tystiolaeth ar gyfer Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, ymddengys mai'r galw yn y Parc Cenedlaethol yw am adeiladau parod ar gyfer busnesau bach a microfusnesau, yn hytrach nag am ddyraniadau tir."

- ➡ Cafodd 683 o geisiadau eu cymeradwyo ar gyfer defnydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun (ddiwedd mis Ebrill 2015) ac nid oedd y rhain ar safleoedd a neilltuwyd.
- ➡ Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun fydd yn nodi polisi cynllunio yr Awdurdod dros orwel o 15 mlynedd. Bydd hefyd yn ystyried y diweddariadau i'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol.**
- ➡ Cynllunio mewn ffigurau:



- ➡ Yn 2015-16 cynhaliodd yr Awdurdod arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid i asesu barn pobl oedd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn. Anfonwyd yr arolwg barn at 68 o bobl, ac roedd 38% ohonynt wedi cyflwyno ymateb llawn neu ymateb rhannol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion (50%) wedi dod oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Roedd 8% o'r ymatebwyr wedi cael eu cais cynllunio diweddaraf wedi'i wrthod. Cafodd y canlyniadau eu cynnwys yn ein hadroddiad ar berfformiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.




Gweithgaredd: Gweithio gyda Twristiaeth Sir Benfro a phartneriaid eraill i wella'r hyn sydd gan dwristiaeth i'w gynnig, a chefnogi twristiaeth, busnesau lleol drwy ganolfannau gwybodaeth, gwefan a chyhoeddiadau.

- ➡ Yn 2016/17 buom yn gweithio ar y cyd i hyrwyddo'r hyn sydd gan dwristiaeth i'w gynnig drwy'r canlynol:

Menter Darganfod Awyr Dywyll	Gweithio gydag APCBB ac APCE ar wefan Darganfod Awyr Dywyll a ariennir gan Croeso Cymru. Mae'r wefan yn rhoi cyngor ar gyfleoedd awyr dywyll ar draws y Parciau Cenedlaethol.
Cais Twristiaeth Treftadaeth	Gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru ac Iwerddon ar gais i gronfa Intereg, Llwybr Celtaidd, sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth treftadaeth.
Coast to Coast	Parhau i gynhyrchu Coast to Coast, sy'n rhoi gwybodaeth i helpu pobl leol ac ymwelwyr wneud y gorau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro o'r gwanwyn tan ddechrau'r hydref.

- ➡ Cafodd 'Darparu Gwybodaeth i Weithgor Ymwelwyr' ei sefydlu fis Mawrth 2015 i edrych ar bob agwedd o waith yr Awdurdod i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol gan gynnwys y trigolion lleol. Roedd argymhellion y grŵp wedi'u hystyried yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar yr 28ain o Fedi 2016, a phenderfynodd yr Aelodau i ymgynghori ar y cynigion i newid y ffordd y cyflwynir gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr yn Ninbych-y-pysgod ac yn Nhrefdraeth yn y dyfodol. Roedd yr Aelodau'n unfrydol yn eu hawydd i weld yr Awdurdod yn newid natur y ddarpariaeth bresennol er mwyn buddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd wedi'u hanelu at gefnogi twf yr economi ymwelwyr ehangach yn Sir Benfro drwy gynnig gwasanaeth mwy teg ar draws y Parc Cenedlaethol.
- ➡ O ganlyniad, roedd yr Awdurdod wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y newidiadau arfaethedig i wasanaethau ymwelwyr yn Nhrefdraeth ac yn Ninbych-y-pysgod. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus yn Nhrefdraeth ac yn Ninbych-y-pysgod ynghyd â chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda grwpiau o randdeiliaid ynglŷn ag effeithiau unrhyw newidiadau posibl a'r cyfleoedd i gynnig gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar y 30ain o Dachwedd 2016, cytunodd yr Aelodau i gau Canolfan

Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol yn Ninbych-y-pysgod tra'n rhoi mwy o amser i swyddogion yr Awdurdod weithio gyda'r gymuned yn Nhrefdraeth i archwilio opsiynau eraill o gyflwyno gwybodaeth yn y dyfodol.



➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Hyrwyddo Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

- ➡ Mae offer ar-lein yn cynnig cyfle cyffrous i'r Awdurdod hyrwyddo nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol i bobl yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r Awdurdod wedi gweld twf mewn ymgysylltu drwy sianelau'r cyfryngau cymdeithasol gyda nifer y cyfrifon sy'n dilyn yr Awdurdod wedi cynyddu o 22,206 yn 2015/16 i 29,885 yn 2017/18.
- ➡ Yn ystod 2016/17 bu'r Awdurdod yn cynnal prosiect cyffrous i alluogi pobl weld Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ar eu cyfrifiadur, ffôn symudol neu dabled wrth i'r llwybr gael ei ychwanegu at Google Street View. Roedd dau o Wardeniaid y Parc wedi gwneud y gwaith ffilmio drwy gerdded y llwybrau a chario'r pecyn camera Google Trekker ar eu cefnau.



"Mae Llwybr yr Arfordir yn llinyn arian o gwmpas y glannau lle gellir gwneud dwsinau o deithiau cerdded cylchol, sy'n cael eu hyrwyddo ar wefan y Parc Cenedlaethol; mae'r wefan yn galluogi pobl i gael rhagolwg o daith gerdded i weld a fydd taith yn addas iddynt hwy o ran wyneb y tir a'r clogwyni. Hefyd yn awr mae modd sgrolio ar hyd taith a mwynhau'r golygfeydd o lecynnau eiconig megis Pont Werdd Cymru, neu rannau mwy anghysbell a llai adnabyddus o'r glannau."

Anthony Richards, Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy APCAP

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr.**

Gweithgaredd: Defnyddio grantiau CDC (Cronfa Datblygu Cynaliadwy) i annog prosiectau busnesau arloesol a charbon isel

- ➡ Mae'r gronfa CDC yn cefnogi'r prosiect Llif Llanw Strwmbwl a gyflawnir gan Transition Bro Gwaun. Nod y prosiect hwn yw gwireddu'r prosiect llif llanw cyntaf o'i fath yng Nghymru a berchnogir neu a arweinir gan y gymuned, ac wrth wneud hynny, yn lliniaru effaith y gymuned ar y newid yn yr hinsawdd ac yn darparu ffynhonnell ynni cynaliadwy a sicrwydd cyflenwad. Mae'r arian grant wedi cyfrannu at yr arbenigedd sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio'r prosiect a'r costau cychwynnol o ddatblygu'r prosiect. Drwy gefnogi prosiectau megis hwn mae'r gronfa CDC yn cyfrannu at yr Agenda Twf Gwyrdd yng Nghymru.

6

prosiect carbon isel a gefnogwyd gan gronfa
CDC yn 2016/17

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Darparu Cynlluniau Hyfforddiant a mathau eraill o brofiad gwaith

- ➡ Mae Sgiliau ar Waith yn bartneriaeth £1miliwn rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Sgiliau, ar gyfer y rhaglen grantiau yn y dyfodol.
- ➡ Yn 2016/17 ymunodd pum person newydd dan hyfforddiant â'r Awdurdod i fanteisio ar y cynllun Sgiliau ar Waith. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle iddynt ddysgu sgiliau newydd drwy gael profiad yn y gweithle gyda'r Tîm Wardeniaid a'r Parcmyn. Bydd yr hyfforddeion hefyd yn ennill Diploma City & Guilds Lefel 2 mewn Astudiaethau Cefn Gwlad a'r Amgylchedd gan Goleg Sir Benfro fel rhan o'r cynllun Prentisiaeth Fodern.
- ➡ Mae ffilm wedi cael ei chynhyrchu i ddathlu llwyddiannau'r cynllun dan hyfforddiant a'r effaith y mae'r cynllun hwn wedi'i gael.

10/10

o hyfforddeion blaenorol Sgiliau ar Waith wedi
camu ymlaen i swyddi diogel neu i addysg
bellach. Mae 9 yn cael eu cyflogi yn y sector
cefn gwlad ac mae 1 mewn prifysgol.

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**



Hyfforddeion o'r cynllun Sgiliau ar Waith yn mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol ym Mharc y Morlys, Y Cwm yn Nhrecŵn sy'n rhan o Barth Menter yr Hafan.

Gweithgaredd: Caffael cynnyrch a gwasanaethau lleol lle bo hynny'n ymarferol

£797245

yw'r swm a wariwyd yn lleol yn 2016/17
(Cod Post SA/ data sylfaenol)

➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Integreiddio**

Gweithgaredd: Gweithredu'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno gan yr Aelodau i gyflawni argymhellion y craffu ar Effaith Economaidd y Parciau Cenedlaethol a gwblhawyd yn 2015

- ➡ Roedd Swyddogion a Chadeirydd yr Awdurdod wedi cyfrannu at weithgor Llywodraeth Cymru oedd wedi cyfrannu at yr Adroddiad "Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru" a gyhoeddwyd fis Mai 2017.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Integreiddio, Cydweithio**

Amcan Llesiant 2: Hyrwyddo a datblygu defnydd o reoli ecosystemau

Gweithgaredd: Datblygu technegau rheoli ecosystemau

- ➔ Nod y prosiect Pwyth mewn Pryd a ariannwyd gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy oedd targedu rhywogaethau ymledol anfrodorol, sef clymog Siapan, jac y neidiwr a rhododendron, y gwyddys eu bod i gyd yn bresennol yng Nghwm Gwaun. Gan fod nifer o'r rhywogaethau ymledol yn lledaenu ar hyd cyrsiau dŵr, roedd y prosiect hwn yn ymdrin â'r mater drwy ymateb fel dalgylch yn gweithio ar y cyd i reoli'r tyfiant, ac wedyn amddiffyn y dalgylch rhag ail-dyfiant.
- ➔ Yn ystod y prosiect roedd y gwaith arolygu a'r mapio wedi clustnodi ffynonellau o jac y neidiwr, clymog Siapan a Rhododendron, a gafodd eu trin drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr a chontractwyr fel oedd yn briodol. Mae effeithiolrwydd y driniaeth yn cael ei fonitro a'i gofnodi, a chynhaliwyd gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth ac i feithrin gallu i reoli planhigion ymledol allweddol.
- ➔ Bu Cydlynnydd y Prosiect yn gwneud asesiad o'r gwasanaethau ecosystemau yn y dalgylch i fesur effeithiau'r prosiect o ran gwasanaethau ecosystemau. Ariannwyd yr asesiad hwn gan APCAP fel estyniad i'r prosiect.
- ➔ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Gweithredu Polisiâu Cynllunio i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu datblygu yn gynaliadwy

- ➔ Caiff hyn ei fonitro drwy'r Dangosydd 5 yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar Ddatblygu Lleol yr Awdurdod o ran y cynlluniau a gymeradwyir yn groes i Bolisi Strategaeth 8, Nodweddion Arbennig.
- ➔ Roedd un cynllun a gymeradwywyd oedd yn groes i'r argymhelliad oedd yn cyfeirio at Bolisi 8 ar gyfer safle gwersylla/glampio newydd yn 2015/16. Penderfynodd yr Aelodau ganiatáu'r cais ar y sail ei fod yn gynllun gweddol fach, wedi'i sgrinio'n dda, heb dderbyn unrhyw wrthwynebiadau lleol, y byddai o fudd i'r economi leol ac yn welliant ar ansawdd y llety i dwristiaid.
- ➔ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol**

Gweithgaredd: Gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr ar rywogaethau ymledol a gwaith arall ar gadwraeth

333

o ddiwrnodau gwirfoddolwyr cadwraeth a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr drwy weithio gyda'n Parcmyn Ardal.

- ➔ Yn 2016/17 bu grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yn cyfrannu at ystod o brosiectau cadwraeth, gan gynnwys:

Wardeniaid Gwirfoddol	Bu pedwar o Wardeniaid Gwirfoddol Ardal y Gogledd oedd yn awyddus i gymryd mwy o ran mewn monitro biolegol yn cymryd samplau cwadrat ar rywogaethau dolydd ar ddôl hyfryd yr Awdurdod yn Sychpant. Mae'r 40 o samplau cwadrat a gymerwyd wedi creu llinell sylfaen ar gyfer ymweliadau monitro yn y dyfodol.
Prosiect Pwyth mewn Pryd	Nid yw pob safle Jac y neidiwr yn addas ar gyfer grwpiau mawr o weithwyr. Bu pedwar o wirfoddolwyr yn gweithio yn unig gyda Chydlynnydd y Prosiect, gan dreulio diwrnodau gwaith llawn yn gwneud gwaith arolygu a rheoli. Ffocws gwaith y "gwirfoddolwyr craidd" hyn oedd rheoli Jac y neidiwr ynysig ar hyd ffosydd a gwrychoedd anhygyrch sy'n ymuno â nentydd allweddol.
Dug Caeredin	Bu 14 o fyfyrwyr oedd yn cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin yn helpu i lanhau'r traeth a chael gwared ar eiddew o'r odyng galch ar Draeth y Castell, Dale. Casglwyd 14 o fagiau o sbwriel i gyd a chliriwyd yr odyng galch yn llwyr, y bwthyn a'r waliau o amgylch.




Bu grŵp mawr o wirfoddolwyr yn clirio tunelli o blastig a sbwriel niweidiol ar Draeth Frainslake ar Faes y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghastellmartin.

➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol**

Gweithgaredd: Defnyddio cyllid CDC i ychwanegu at gyllid cadwraeth

- ➡ Mae'r gronfa CDC yn cefnogi Menter Beilot Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro a gyflawnir gan Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro. Nod y cynllun peilot hwn yw dangos, drwy addysg, codi ymwybyddiaeth a chyflwyno cyfres o fesurau ymarferol, bod modd gwella cynaliadwyedd offer pysgota sefydlog oddi ar Arfordir Sir Benfro. Drwy wneud hyn y nod yw lleihau'r effaith negyddol y mae colli offer yn ei gael ar yr amgylchedd morol a'r economi leol. Mae pysgotwyr yn cael eu hannog i gyflwyno un neu fwy o fentrau gwirfoddol i'w harferion pysgota i helpu i brofi ffyrdd o leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.



➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Defnyddio cyngor, gwybodaeth a grantiau i annog perchnogion tir a ffermwyr i weithredu mesurau rheoli cadwraeth ar gyfer tir ac adeiladau

- ➡ Gwarchod y Parc yw cynllun blaenllaw yr Awdurdod o ran gweithio gyda thirberchnogion preifat o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynllun wedi bod yn arf pwerus wrth gyflawni mesurau ymarferol o reoli tir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Y cynllun hwn yw'r cyfrwng allweddol o lwyddo i gyflawni'r amcanion cadwraeth diben cyntaf yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol ac yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. Mae'r safleoedd cadwraeth yn y rhaglen waith weithredol yn cael ymweliadau archwilio ffurfiol sy'n cael eu cofnodi ar ffeil, a'r safleoedd hynny yn cael eu rhoi mewn Categori Coch, Melyn neu Wyrdd.
- ➡ Mae'r adroddiad "Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro" (2016) yn awgrymu bod bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth megis Adar Ffermdir, Rhostir ac ymylon caeau tir â'r yn dirywio. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn amlygu bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny lle mae cryn ymdrech wedi cael ei wneud, yn sefydlog neu'n gwella.

100%

o safleoedd cadwraeth yn cydymffurfio â'u cynllun rheoli

1228ha

o dir a reolir mewn partneriaeth â'r APC

- ➡ Mae canlyniadau'r rhaglen rheoli tir yn cael eu hadrodd i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio**

Gweithgaredd: Rheoli ein heiddo ein hunain ar gyfer cadwraeth

- ➡ Mae'r Awdurdod wedi parhau i reoli ei eiddo ei hun o ran cadwraeth drwy gymorth y tîm Wardeniaid a gwirfoddolwyr.
- ➡ Mae peth wmbredd o flodau gwyllt i'w gweld ar ddôl yr Awdurdod ar safle ar ben clogwyn yn Skrinkle Haven sy'n hawdd ei gyrraedd, ac mae llacio'r drefn lladd gwair ar y glaswelltir hwn wedi talu ar ei ganfed.
- ➡ Yn 2001 dechreuodd yr Awdurdod ar brosiect arbrofol dros gyfnod o bum mlynedd i greu rhostir a choetiroedd brodorol ar yr hyn oedd ar y pryd yn blanhigfa 70ha o goed conifer yng Nghwm Gwaun. Yn 2015 comisiynwyd ymgynghorydd i asesu llwyddiant y prosiect. Roedd arolwg maes manwl wedi dangos bod 39ha o weundir, glaswelltir a phrysgwydd a 21ha o goetir newydd wedi deillio o'r hyn oedd yn ganopi tywyll o goed sbriws Sitka. Nododd yr arolwg hefyd bod rhywogaethau o adar mudol iawn sy'n cartrefu ar rostir megis Llinos, Bras y Gors, yr ehedydd, y Troellwr Bach, y Cudyll Coch a'r Gwcw eisoes wedi gwneud eu ffordd i'r safle.

435ha

o dir a reolir gan yr APC

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol i baratoi'r Asesiad Llesiant a'r Amcanion

- ➡ Mae Prif Weithredwr yr Awdurdod yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'r Swyddog Datblygu Ymchwil a Chynaliadwydd wedi mynychu cyfarfodydd y grŵp data.

- ➡ Mae'r staff wedi cyfrannu at ddatblygiad yr asesiad Llesiant ac wedi mynychu digwyddiadau i'r rhanddeiliaid.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Cyflwyno ceisiadau am gyllid i wneud gwaith cadwraethol gyda sefydliadau partner

£100k

gan Lywodraeth Cymru i barhau â'r prosiect
Pwyth mewn Pryd

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Amcan Llesiant 3: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella eu llesiant drwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol waeth beth fo'u hamgylchiadau

Gweithgaredd: Cynnal Llwybr yr Arfordir a'r Hawliau Tramwy Mewndirol a datblygu llwybrau aml-ddefnyddiwr

85.81%

o Hawliau Tramwy ar agor ac yn hygyrch ac yn bodloni'r safon ansawdd

176425

sef nifer y bobl sy'n defnyddio'r llwybrau cyhoeddus yn ôl y cyfrifwyr sefydlog (7 Llwybr yr Arfordir, 4 hawl tramwy mewndirol). Cynnydd o 3% ar 2015/16.

- ➡ Rhwng mis Awst 2015 a mis Gorffennaf 2016 roedd yr Awdurdod wedi cynnal Arolwg o Ddefnyddwyr Llwybrau Cefn Gwlad.

2959

wedi ymateb yn ystod cyfnod yr arolwg

95%

wedi nodi bod cyflwr y llwybrau naill ai yn ardderchog neu'n dda

98.5%

wedi ymateb bod taith gerdded heddiw wedi diwallu eu disgwyliadau

88%

o ymatebwyr wedi nodi mai eu prif reswm dros gerdded oedd "Mwynhau'r Dirwedd Naturiol"

"Llwybrau wedi'u marcio'n glir a'u cynnal yn dda, ymweliad cyntaf ac yn llawn edmygedd. Byddaf yn dychwelyd am ragor"

Sylwadau un o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg




- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr.**

Gweithgaredd: Hyrwyddo ac annog cerdded a mathau eraill o hamdden

- ➡ Yn 2016/17 mae'r Awdurdod wedi bod yn ymwneud â'r fenter Sir Benfro, Dewch i Gerdded, sy'n ceisio annog pobl o bob oed a gallu i gymryd y camau cyntaf i wneud cerdded yn rhan o'u bywyd beunyddiol. Fis Medi cynhaliwyd amrywiaeth o deithiau tywys dros saith niwrnod a drefnwyd gan Bartneriaeth Sir Benfro ar Greu Cymru Egniol a gydlynir gan yr Awdurdod. Fel rhan o'r fenter, mae'r Awdurdod wedi lansio cyfeiriadur cerdded yn Sir Benfro sy'n ddi-dâl i annog pobl i gysylltu â grwpiau cerdded lleol. Gellir gweld y cyfeiriadur ar wefan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- ➡ Drwy gydol y flwyddyn roedd amrywiaeth o deithiau tywys wedi'u cynnal gan wirfoddolwyr, Parcmyn a staff y Parc Cenedlaethol i'r cyhoedd, ysgolion, grwpiau cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol.

1813


o gyfranogwyr wedi elwa o gyfleoedd cerdded â chymorth drwy'r cynllun Dewch i Gerdded yn 2016/17.



- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**


Gweithgaredd: Datblygu gweithio'n agosach gyda gweithwyr proffesiynol iechyd

- ➡ Mae'r Awdurdod yn hwyluso'r Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru sy'n rhoi cyfleoedd i gomisiynwyr iechyd ac ymarferwyr ddod ynghyd i gael gwell dealltwriaeth a chlustnodi cyfleoedd o gwmpas gwasanaethau iechyd naturiol.
- ➡ Menter iechyd a lles yw Dewch i Gerdded a lansiwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2011, sy'n cynnig cyfleoedd cerdded â chymorth yn y Parc Cenedlaethol ac o gwmpas y Parc. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr â risg uwch o iechyd gwael oherwydd eu hamgylchiadau neu eu cyflyrau iechyd, gyda nifer ohonynt wedi'u cyfeirio at y prosiect gan eu clinigwyr drwy'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.



- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Ymgysylltu ag ysgolion a grwpiau eithriedig i annog addysg awyr agored, i ddeall nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a'r bygythiadau gan newid yn yr hinsawdd.



10.1/11

yw'r raddfa adborth ar gyfartaledd yn 2016/17

"Rydym yn defnyddio gweithgareddau'r Parc Cenedlaethol yn gyson gan eu bod yn helpu'r disgyblion i garu eu hardal leol, mae'r gweithgareddau wedi'u trefnu'n dda a'u lefelu'n briodol, ac yn hwyl"

Astudiaeth Traeth -Ysgol Gymunedol Y Garn

"Roedd yn fendigedig i'r disgyblion weld ble yn union yr oedd y pyllau glo yn yr ardal leol."

Llwybr Darganfod Cyfrinachau Saundersfoot - Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru St Oswald

"Roedd y disgyblion yn deall llawer gwell y cadwyni bwyd a'r creaduriaid sy'n byw mewn cynefin dŵr".

Dipio pyllau dŵr ac astudiaeth Coetir, Ysgol Gynradd Aber Llydan

"Cyfle i chwarae rôl o'r cychwyn cyntaf. Datblygu iaith a deall hanes."

Astudiaeth Coetir - Ysgol Gymunedol Wdig

- ➡ Mae'r Awdurdod wedi bod yn cynnal prosiect parhaus yn ysgol Teilo Sant i helpu i wella gardd bywyd gwyllt yr ysgol ar gyfer bioamrywiaeth. Yn 2016/17 bu Parcmon y De a wardeniaid gwirfoddol yn cynorthwyo disgyblion ysgol Teilo Sant i blannu 400 o rywogaethau coed collddail i greu 2 glawdd newydd ar dir yr ysgol. Drwy gydol y dydd daeth pob disgybl yn yr ysgol allan a phob un ohonynt yn plannu nifer o goed. Mae hyn wedi cynnwys creu ardal ddysgu awyr agored a phlannu perllan dreftadaeth fechan. Yn ddiweddar, derbyniodd yr ysgol wobwr eco-ysgol gan Cadwch Gymru'n Daclus am y gwaith a wnaed yn yr ysgol.

4301

o bobl 'anodd eu cyrraedd' (cynhwysiant cymdeithasol) yn ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn gynnydd ar 3,808 o bobl fu'n cymryd rhan yn 2015/16.

- ➡ Sicrhawyd cyllid yn 2016/17 ar gyfer y 'Prosiect Llwybrau'. Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar waith cynhwysiant cymdeithasol blaenorol a wnaed gan yr Awdurdod a'i

bartneriaid. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar fanteision gwirfoddoli fel un o'r 'llwybrau' i bobl brofi'r awyr agored. Y grwpiau a dargedir gan y prosiect i ymgysylltu â hwy yw grwpiau a chymunedau lleol dan anfantais, gan gynnwys pobl ifanc, pobl sy'n dioddef iechyd meddwl a phobl hŷn.

278827

o bobl yn defnyddio ein canolfannau, gweithgareddau a digwyddiadau a'r rhaglen ysgolion.

➔ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Annog grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i ymwneud â chynlluniau'r Parc Cenedlaethol

195

o Ddigwyddiadau Gwirfoddoli wedi'u cynnal yn 2016/17

1608

o ddiwrnodau gwirfoddoli gan wirfoddolwyr gyda chymorth gan y Tîm Darganfod a'r Parcmyn Ardal

➔ Yn 2016/17 roedd gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol wedi cyfrannu at ystod o gynlluniau a meysydd gwaith y Parc Cenedlaethol gan gynnwys y canlynol:

Wardeniaid Gwirfoddol a Gwaith Mynediad	Yn 2016/17 roedd Wardeniaid Gwirfoddol yr Awdurdod wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â mynediad i'r llwybrau. Gan gynnwys clirio'r llwybr troed yn Cas-mael, trwsio'r iet yn Ffordd Aeron, gosod grisiau ar lwybr caniataol yn Cosheton a gosod llwybrau pren ym Mharc Slebets.
Prosiect Pwyth mewn Pryd	Drwy'r prosiectau Pwyth mewn Pryd roedd aelodau Grŵp Llwybrau Trefdraeth wedi mapio, cysylltu â thirfeddianwyr, trefnu ac arwain partiön gwaith Jac y Neidiwr yn Nyffryn Clydach yn 2016. Roedd aelodau Cymdeithas Llandudoch ac Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro wedi rhoi o'u harbenigedd gydol y prosiect cyfan, gan gynnwys cyfrannu at daflen ar Jac y Neidiwr.
Panel Cymunedol yn Boggy Lane, Hook	Bu Swyddog Dehongli yr Awdurdod yn gweithio gyda Chymdeithas Hanes Hook i gynhyrchu panel dehongli yn adrodd hanes glo a chalchfaen yn yr ardal.
Arweinwyr	Bu arweinwyr gweithgareddau gwirfoddolwyr yn arwain teithiau

Cerdded a Gweithgareddau

tywys a gweithgareddau eraill o ymgysylltu fel rhan o raglen yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gyhoeddwyd o weithgareddau a digwyddiadau.

- ➔ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Defnyddio cyllid CDC i gefnogi prosiectau sy'n gysylltiedig â iechyd a lles

- ➔ Mae'r gronfa CDC yn cefnogi'r Prosiect Peilot Gofal Solfach a gyflawnir gan Gyngor Cymuned Solfach. Nod y prosiect hwn yw gwella iechyd a lles y gymuned leol drwy sefydlu cwmni menter cymdeithasol fydd yn paratoi pecynnau gofal wedi'u teilwra yn ôl yr angen. Mae'r cyllid yn cyfrannu at gyflogi cydlynnydd rhan-amser i gyflawni cynllun peilot dwy flynedd i dreialu'r ffyrdd gorau o weithio gyda gwirfoddolwyr, ar lefel leol, i gyflawni rhaglen bwrpasol o ofal i'r rhai sydd mewn angen yn y gymuned.

4

Prosiect byw CDC sy'n cyfrannu at iechyd a lles

- ➔ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Defnyddio polisïau cynllunio i hyrwyddo tai fforddiadwy

- ➔ Fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol roedd cwmni Andrew Colland Associates wedi gwneud asesiad strategol o'r gofynion posibl am dai fforddiadwy ar gyfer y strategaeth a ffefrir. Amcan yr astudiaeth oedd profi targedau Tai Fforddiadwy posibl ac i brofi'r tybiaethau a wnaed gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn cael cytundeb ar newidynnau hyfywedd allweddol megis meincnodau prisiau, costau a gwerth tir. Bydd yr astudiaeth yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

26%

o bob tŷ oedd wedi cael caniatâd cynllunio yn y Parc yn 2016/17 wedi'i sicrhau yn dai fforddiadwy. APCE - 32%. APCBB - 26%.

- ➔ Roedd 13 o unedau tai marchnad agored wedi'u cymeradwyo yn chwarter 4 o'r flwyddyn 2017/18. Roedd y ceisiadau yn cynnwys 7 cais am 1 annedd ac 1 cais am 6 annedd. Roedd yn ofynnol i'r ceisiadau roi cyfraniad tuag at dai fforddiadwy naill ai yn ariannol neu drwy drosglwyddo tir.
- ➔ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Cynnal cymorth ariannol i'r gwasanaethau bws arfordirol, cyn belled â bod partneriaid eraill yn parhau i ariannu'r gwasanaeth.

- ➡ Mae'r Bartneriaeth Lonydd Glas yn dwyn ynghyd yr holl asiantaethau sy'n gyfrifol am hyrwyddo a rheoli datblygiadau cerdded, seiclo, teithio ar fws ac ar drên yn Sir Benfro. Yn 2016/17 parhaodd yr Awdurdod i gyfrannu drwy gymorth ariannol y bartneriaeth i'r gwasanaeth bws arfordirol sy'n helpu pobl i gael mynediad i gyfleoedd cerdded ar draws y Parc.

71669

o deithwyr ar y Gwasanaeth Bws Arfordirol (yn ystod 1af o Fai tan y 25ain o Fedi 2016)

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio**

Amcan Llesiant 4: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i wneud y mwyaf o'r Parc Cenedlaethol.

Gweithgaredd: Ymgysylltu'n agosach â grwpiau cymunedol yn uniongyrchol a thrwy grwpiau megis PLANED a PAVS i gyflawni prosiectau lleol

- ➡ Mae ein Parcmyn Ardal wedi parhau i ymgysylltu â'r gymuned leol drwy roi annerchiadau i grwpiau lleol ar ystod o bynciau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a mynychu cyfarfodydd grwpiau cymunedol.

15

o deithiau i grwpiau cymunedol wedi'u cynnal drwy Gastell Henllys

- ➡ Rydym wedi parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol yn 2016/17 i gyflawni prosiectau lleol gan gynnwys y canlynol:

Adeilad Cymunedol Yr Hen Ysgol	Bu Parcmyn Ardal y Gogledd Orllewin yn gweithio gyda gwirfoddolwyr Adeilad Cymunedol Yr Hen Ysgol yn Dinas a'u dysgu sut i ail-godi'r walydd carreg o gwmpas eu safle. Mae'r hyfforddiant wedi gwella'r safle a'r llwybr cyhoeddus cyfagos ac wedi rhoi sgiliau a gallu newydd i'r grŵp barhau i ymgymryd â'r gwaith hwn yn y dyfodol.
Gwarchodfa Natur Leol Freshwater East	10 mlynedd yn ôl gofynnodd cymuned Freshwater East i'r Awdurdod am gymorth i ddatblygu taith gerdded gylchol i bobl o bob gallu drwy'r corstir. Roedd hyn yn golygu creu llwybr pren hirfain oedd yn arwain at guddfan adar. Mae darn newydd 120m o hyd o lwybr pren plastig wedi'i ailgylchu bellach wedi'i ychwanegu i ymestyn y llwybr at y lan yr afon. Y cam nesaf yw adeiladu pont droed newydd 10m ar draws yr afon. Mae'r llwybr yn awr yn daith gerdded drwy gynefin gwlyb oedd unwaith yn anhygyrch lle gellwch glywed a gweld bywyd gwylt megis telor Cetti, corsiar a hyd yn oed dyfrgwn.
Prosiect Celf Cymunedol ym Melin Caerw	Gyda chymorth ariannol i'r prosiect o'r gronfa Grant Bach Gwyrdd, bu'r artist lleol Helen Astley yn gweithio gyda phlant ysgol Sageston i greu murlun yn adrodd hanes 'O'r Hedyn i'r Plat.' Dyluniwd y murlun gyda'r plant a'i gwblhau dros gyfnod o 6 mis a ddaeth i ben fis Mehefin 2016.

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**



Disgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Sageston o flaen y murlun a grëwyd ganddynt gyda chymorth yr artist Helen Astley ym Melin Lanw Caeriw.

Gweithgaredd: Drwy'r gwaith o adolygu'r CDLI, paratoi polisïau sy'n seiliedig ar y gymuned

- ➡ Cynhaliwyd gweithdai i'r Cynghorau Tref a Chymuned fis Chwefror 2017, ac mae papur cefndir wedi'i lunio ar gyfleusterau cymunedol fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Defnyddio cyllid CDC i gefnogi prosiectau cymunedol

- ➡ Mae'r gronfa CDC drwy'r Grantiau Bach Gwyrdd yn cefnogi Cymdeithas Treftadaeth Forol Gorllewin Cymru i ddatblygu Amgueddfa Forol barhaol a chanolfan ar gyfer adfer a chynnal-a-chadw cychod. Mae angen cyllid ar gyfer sgriniau arddangos symudol a deunydd ychwanegol i osod arddangosfeydd. Y nod yw cyflwyno gwybodaeth, addysgu a dangos hanes adeiladu llongau a chychod.

10

o brosiectau byw cymunedol a noddwyd drwy'r gronfa CDC yn 2016/17

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Amcan Llesiant 5: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o waith a diwylliant yr APC.

Gweithgaredd: Parhau i weithredu ein polisiau a'n cynllun gweithredu ar Gynhwysiant Cymdeithasol a thlodi plant

- ➡ Rydym wedi parhau i gefnogi prosiectau a gweithgareddau sydd wedi cyfrannu at weithredu canlyniadau'r Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant:

Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro	Sefydlwyd y bartneriaeth i hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored yn Sir Benfro. Mae'r gronfa SDF ochr yn ochr â Sefydliad y Garreg Las wedi ariannu cydlynedd prosiect rhan amser Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro sy'n cyfrannu tuag at ddatblygu a chyflwyno rhaglen newydd o hyfforddiant a chymorth i ysgolion. Bydd hyn yn gymorth i ysgolion ddod yn fwy effeithiol wrth gyflwyno addysg awyr agored.
Dewch i Gerdded	Mae'r cynllun Dewch i Gerdded wedi gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys Grŵp Seibiant i Ffoaduriaid, MIND, Tŷ Shalom, grŵp adfer Merched Llwynhelyg, Bikemobility, cymorth llesiant y Fyddin, i gynnig cyfleoedd i gerdded â chymorth.
Parcmy'n leuenctid	Mae Cynllun Wardeniaid Ifanc yr Awdurdod yn parhau i gynnwys pobl ifanc mewn prosiectau cadwraeth a chyfleoedd eraill gan eu galluogi i ddysgu a datblygu sgiliau newydd, cyfarfod pobl o'r un anian, a chael hwyl mewn gweithgareddau yn yr awyr agored.



Parcmy'n leuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Prosiect Pizza yn y Parc	Mae'r prosiect Pizza yn y Parc wedi golygu gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf Sir Benfro i gael pobl i gymryd rhan mewn adeiladu ffyrnau pizza awyr agored. Clwb Ieuenctid Hive oedd un o'r grwpiau i elwa o'r prosiect.
Ysgol Portfield	Mae gan yr Awdurdod bartneriaeth hirsefydlog gydag Ysgol Portfield i gyflawni'r elfen gwasanaeth o Wobr Dug Caeredin dan arweiniad y Parcmon Ardal. Mae'r bobl ifanc lleol sy'n cymryd rhan yn wynebu heriau lu sydd angen cymorth ychwanegol. Dros y blynyddoedd maent wedi gweithio ar hyd a lled y Parc yn cyflawni prosiectau ymarferol mor amrywiol â rheoli coetiroedd, casglu sbwriel, adeiladu gatiau a phontydd syml ac yn gwneud gwaith cloddio archeolegol. Y prosiect diweddaraf oedd y llwybr troed caniatol newydd o amgylch eiddo ym Mhen Strwmbwl drwy ymdrechion 12 o bobl ifanc yn gweithio gyda'i gilydd.
Ymgysylltu â Chlybiau Ieuenctid	Cynhaliodd Parcmon y Gogledd weithdy cyllyll yng Nghanolfan Ieuenctid Point yn Abergwaun ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys a gweithwyr ieuenctid. Roedd yr Heddlu yn canolbwyntio ar droseddau a diogelwch cyllyll, a'r Parcmon yn helpu'r bobl ifanc i ddefnyddio cyllyll crefft i naddu coesau pren i wneud stôl deircoes i fynd adref. Mae'r Parcmyn wedi arwain teithiau cerdded i Glwb Ieuenctid Abergwaun i Chwareli Rhos-y-bwlch, ac i Grŵp Ieuenctid Awtistig Pobl yn Gyntaf Sir Benfro ar daith gerdded gyda'r hwyr ym Maenor Scolton.
Diwrnod Darganfod i Ofalwyr	Ymunodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol â sefydliadau cymorth ar draws y sir i gynnal diwrnod o weithgareddau i ofalwyr o bob oed yng Nghastell a Melin Lanw Caeriw.



Roedd gofalwyr o bob rhan o Sir Benfro wedi mwynhau gêmâu Tuduraidd a gwneud catapwlt yng Nghastell Caeriw gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Chwarae Ein Ffordd Ni, Parciau Sir Benfro

Drwy Glybiau Plant Cymru mae'r prosiect hwn a ariennir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn rhoi gofal plant y tu allan i oriau ysgol mewn clwb gweithwyr-chwarae sydd â gwell gwybodaeth, sgiliau, hyder ac ystod o syniadau am weithgareddau cynaliadwy newydd, i ennyn gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant, bywyd gwyllt, tirwedd a defnydd tir yn y Parc. Mae'r prosiect yn annog plant i fod yn fwy egniol yn yr awyr agored sy'n llesol i'w hiechyd a'u lles. Mae syniadau ar gyfer gweithgareddau newydd cost isel neu di-gost yn cael eu datblygu, eu profi a'u gwerthuso cyn cael eu dangos a'u hyrwyddo mewn digwyddiad lansio a hyfforddiant.

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Cynllun Mentora i annog ceisiadau am Aelodau a benodir gan LIC o ystod ehangach o grwpiau

- ➡ Parhaodd yr Awdurdod i ymwneud â chynllun mentora Llywodraeth Cymru i annog mwy o amrywiaeth o Aelodau posibl ar yr Awdurdod. Bu cyfnod o beidio ag ymwneud â'r cynllun yn ystod y cylch recriwtio am Aelodau newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru. Ni chafodd un o'r rhai a fentorwyd eu penodi i'r Awdurdod hwn, ond mae un wedi cael ei benodi ar fwrdd cymdeithas tai, ac yn cydnabod budd y cynllun.

3

a fentorwyd yn 2016/17

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Sicrhau bod swyddi yn cael eu talu'n deg, gan gynnwys parhau i dalu'r Cyflog Byw (oni bai nad yw'n fforddiadwy)

- ➡ Isod mae ein gwybodaeth ar gyflogaeth ar 31 Mawrth 2017 yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyflwyno'r wybodaeth:

Pobl a gyflogwyd gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 yn ôl nodwedd warchodedig:

Rhyw/rhywedd	2015/16	2016/17
Benyw	73 (47%)	72 (48%)
Gwryw	82 (53%)	77 (52%)

Tarddiad Ethnig	
2015/16	Roedd 50 o'r gweithwyr heb roi'r data hwn. O'r gweithwyr hynny a roddodd wybodaeth, roedd pob un ohonynt wedi nodi eu bod o darddiad ethnig gwyn.
2016/17	Roedd 45 o'r gweithwyr heb roi'r data hwn. O'r gweithwyr hynny a roddodd wybodaeth, roedd pob un ohonynt wedi nodi eu bod o darddiad ethnig gwyn.

Oedran	2015/16	2016/17
20 oed ac iau	2 (1%)	2 (1%)
21 to 30	16 (10%)	17 (11%)
31 to 40	26 (17%)	28 (19%)
41 to 50	43 (28%)	40 (27%)
51 to 60	44 (29%)	40 (27%)
60 a throsodd	22 (14%)	22 (15%)

Anabledd	
2015/16	Roedd 55 o'r gweithwyr heb roi'r wybodaeth hon. O'r gweithwyr hynny a roddodd wybodaeth, roedd 5 wedi nodi bod ganddynt anabledd.
2016/17	Allan o'r 149 o weithwyr, roedd 38% o weithwyr heb roi'r wybodaeth hon. Roedd 3% wedi nodi bod ganddynt anabledd.

Crefydd	
2015/16	Roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr wedi datgan nad oedd ganddynt unrhyw grefydd neu heb nodi dim.
2016/17	Allan o'r 149 o weithwyr, roedd 41% o weithwyr heb roi'r wybodaeth hon, roedd 5% wedi dewis peidio â dweud, 29% wedi dweud eu bod yn Gristnogion, 3% yn dweud bod ganddynt grefydd heblaw Cristnogaeth, a 22% yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw grefydd.

Cyfeiriadedd Rhywiol	
2015/16	Roedd tua hanner y gweithwyr heb roi'r wybodaeth hon neu'n 'dewis peidio â dweud'; mae'r nifer yn rhy fach i'w gofnodi.
2016/17	Allan o'r 149 o weithwyr, roedd 40% o weithwyr heb roi'r wybodaeth hon, roedd 4% yn dewis peidio â dweud, roedd 52% yn dweud eu bod yn Heterorywiol a 4% yn dweud eu bod yn Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Anhysbys.

- ➡ Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo wella lefel y data monitro cydraddoldeb staff a chael y staff i ddeall pam fod angen y wybodaeth.

Data'r gweithlu yn ôl Rhyw (swydd, cyflog, tâl, math o contract, patrwm gweithio)**Swyddi**

Mae'r Awdurdod yn cyflogi pobl mewn amrywiaeth eang o swyddi, a llawer o'r swyddi hynny ag un person yn y swydd, ac felly ni wneir monitro fesul 'swydd'.

Cyflog				
Cyflog	Ar uchafswm cyflog Mawrth 2017	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Graddfa 1	£14,338	17	12	29
Graddfa 2	£15,941	9	2	11
Graddfa 3	£17,372	12	13	25
Graddfa 4	£19,742	3	11	14
Graddfa 5	£22,212	9	12	21
Graddfa 6	£24,472	5	5	10
SO1	£27,123	6	5	11
SO2	£29,558	1	1	2
POA	£30,978	4	8	12
POB	£33,857	1	3	4
POC	£35,662	2	1	3
POD	£38,405	0	0	0
POE	£41,140	2	1	3
POH	£58,834	1	2	3
PW	£76,520	0	1	1
Cyfanswm		72	77	149

Tâl

Mae'r Awdurdod yn talu lwfans byw atodol i ddod â chyflogau i lefel sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw sy'n effeithio ar swyddi ar Raddfa 1 i Raddfa 2. Nid oes unrhyw elfennau arwyddocaol eraill o dâl sy'n daladwy ar ben y cyflogau yn y graddfeydd cyflog.

Math o contract / patrwm gweithio				
	Llawm-amser	Rhan-amser	Parhaol	Dros-dro*
Benyw	22	50	47	25
Gwryw	54	23	56	21
Cyfanswm	76	73	103	46

*Roedd yr Awdurdod yn cynnig contractau tymor penodol / dros-dro wrth lenwi swyddi gwag er mwyn helpu i reoli'r cwtogi yn y gyllideb. Hefyd mae swyddi tymhorol, lle mae deiliad y swydd weithiau yn dychwelyd y tymor dilynol.

Gweithio oriau hyblyg

Mae'r Awdurdod yn cefnogi gweithio oriau hyblyg ac mae'r gweithwyr yn gweithio ystod eang o batrymau gwaith o ran nifer yr oriau dros ddiwrnodau amrywiol. Mae nifer o'r staff yn gweithio cynllun amser hyblyg, a gall pob aelod o staff ofyn am drefniadau gweithio oriau hyblyg, megis pythefnos 9 diwrnod; mae'r ceisiadau fel arfer yn cael eu cymeradwyo. Mae'r staff yn symud i mewn ac allan o drefniadau wrth i'w hamgylchiadau newid.

Y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r Awdurdod yn 2015-16**Nifer y Ceisiadau am Swydd**

2015/16	Yn ystod 2015-16, derbyniwyd 373 o geisiadau am swydd. Nid yw pob ymgeisydd yn llenwi unrhyw ran neu'r cyfan o'r data monitro y gofynnir amdano, felly ni fydd y data yn y gwahanol gategorïau bob amser yn dod i gyfanswm o 373.
2016/17	Yn ystod 2016-17, derbyniwyd 450 o geisiadau am swydd. Nid yw pob ymgeisydd yn llenwi unrhyw ran neu'r cyfan o'r data monitro y gofynnir amdano, felly ni fydd y data yn y gwahanol gategorïau bob amser yn dod i gyfanswm o 450.

Rhyw/rhywedd	2015/16	2016/17
Benyw	145 (39%)	173 (38%)
Gwryw	228 (61%)	276 (61%)
Data anhysbys	0 (0%)	1 (1%)

Tarddiad ethnig

2015/16	Cafwyd 338 o ymatebion, a phob un o'r ymatebwyr yn nodi Gwyn Prydeinig /Cymreig/ Seisnig/ Albanaidd/ Gwyddelig
2016/17	Cafwyd 401 o ymatebion yn nodi Gwyn Prydeinig /Cymreig/ Seisnig/ Albanaidd/ Gwyddelig. 1 ymateb yn nodi Gwyn/Du, Caribïaidd, Affricanaidd, Asiaidd.

Oedran	2015/16	2016/17
20 oed ac iau	26 (7%)	32 (7%)
21 i 30	144 (38%)	126 (28%)
31 i 40	57 (15%)	88 (20%)
41 i 50	51 (14%)	78 (17%)
51 i 60	47 (13%)	70 (16%)
60 a throsodd	12 (3%)	13 (3%)
Data anhysbys	36 (10%)	43 (10%)

Anabledd

2015/16	Roedd 331 wedi ymateb nad oedd ganddynt anabledd, ymatebodd 6 bod ganddynt anabledd.
2016/17	Roedd 402 wedi ymateb nad oedd ganddynt anabledd, ymatebodd 9 bod ganddynt anabledd.

Crefydd neu Gred, Cyfeiriadedd Rhywiol ac Ailbennu Rhywedd

Nid yw'r Awdurdod ar hyn o bryd yn casglu data ymgeiswyr ynglŷn â chrefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu ailbennu rhywedd. Mae hwn yn faes y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei adolygu.

Gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid swydd

2015/16	Roedd 5 o ymgeiswyr mewnol, ac roedd un ohonynt yn llwyddiannus.
2016/17	Roedd 21 o ymgeiswyr mewnol, ac roedd wyth ohonynt yn llwyddiannus.

- ➔ Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo gynyddu amrywiaeth y rhai sy'n gwneud cais am gyfleoedd gwaith o fewn yr Awdurdod. Nod cam gweithredu yn y Cynllun Corfforaethol 2017/18 yw cynorthwyo yn hyn o beth.

Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth**Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth**

2015/16	Gadawodd 9 o weithwyr yn ystod y flwyddyn, ac eithrio staff dros-dro ar ddiwedd eu contractau.
2016/17	Gadawodd 15 o weithwyr yn ystod y flwyddyn, ac eithrio staff dros-dro ar ddiwedd eu contractau.

Rhyw/rhywedd	2015/16	2016/17
Benyw	5 (55%)	7 (46%)
Gwryw	4 (44%)	8 (53%)

Oedran	2015/16	2016/17
20 oed ac iau	0 (0%)	0 (0%)
21 i 30	1 (11%)	3 (20%)
31 i 40	2 (22%)	1 (7%)
41 i 50	1 (11%)	3 (20%)
51 i 60	1 (11%)	2 (13%)
60 a throsodd	4 (44%)	1 (7%)
Data anhysbys	0 (0%)	5 (33%)

Nodweddion eraill

2015/16	Ni chedwir data arall ar gydraddoldeb am 5 o'r staff hyn sy'n gadael ac mae'r niferoedd o fewn y gweithlu yn fach, felly nid yw'n briodol i nodi unrhyw ddata pellach.
2016/17	Ni chedwir data cydraddoldeb llawn ar nodweddion eraill (Tarddiad Ethnig, Cyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd ac Anabledd) ar bob aelod o staff sy'n gadael, a gan fod y niferoedd yn fach, nid yw'n briodol i nodi unrhyw ddata pellach.

➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ymysg ein staff ac Aelodau

- ➡ Bu 2 o ddefnyddwyr y gwasanaeth Dewch i Gerdded a Pharcmon Ieuenctid yn siarad am eu profiadau o'r cynlluniau gyda'r Aelodau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol. Roedd hwn yn gyfle ardderchog i'r Aelodau glywed yn uniongyrchol gan y rhai sydd wedi elwa o'r cynlluniau am yr effaith gadarnhaol y mae cynlluniau cynhwysiant cymdeithasol a redir gan yr Awdurdod yn ei gael ar unigolion.
- ➡ Mae staff Oriel y Parc wedi cael sesiwn hanner diwrnod ar ennyn ymwybyddiaeth o fyddardod.
- ➡ Mae Canllaw Cyngor Diverse Cymru ar wneud dogfennau yn hygyrch wedi'i ddosbarthu ymhlith y staff.
- ➡ Bydd gwaith pellach ar ennyn ymwybyddiaeth yn cael ei wneud yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd

- ➡ Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 wedi'i gyhoeddi ac ar gael ar wefan yr Awdurdod. Mae'r camau gweithredu o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi cael eu prif-ffrydio i'r Cynllun Corfforaethol 2017/18.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Amcan Llesiant 6: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o iaith, y celfyddydau a threftadaeth yr ardal.

Gweithgaredd: Gweithredu Safonau'r Gymraeg i gyflawni ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

- ➡ Rydym wedi parhau i weithredu Safonau'r Gymraeg, ac yn monitro ein perfformiad drwy ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Integreiddio**

Gweithgaredd: Annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg yn y gwaith ac ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg

- ➡ Yn ystod 2016/17 roedd yr Awdurdod wedi cynnal 'dadansoddiad o'r bylchau' ar draws y timau i fwydo gwybodaeth i'r cynllun i ddatblygu iaith Gymraeg y staff.

52%

o swyddi newydd a swyddi gwag wedi'u hysbysebu yn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn 2016/17

- ➡ Bu Oriel y Parc yn cynnal grŵp Babi a Fi Menter Sir Benfro, sef grŵp sy'n helpu i gyflwyno plant i'r iaith Gymraeg dtrwy ganeuon, straeon a chelf a chrefft.

450

o ddisgyblion wedi bod yn rhan o weithgareddau addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg dan arweiniad Parcmyn Ardal y Parc Cenedlaethol.

55

o blant Adran yr Urdd (plant 7-11 oed) wedi mynychu sesiwn plannu mes a gweithgareddau yn ymwneud â choed drwy gyfrwng y Gymraeg.

22

o bobl wedi bod ar daith gerdded Gymraeg adeg y Nadolig ar Lwybr yr Arfordir dan arweiniad Parcmyn y Parc Cenedlaethol.

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Paratoi strategaeth y Gymraeg ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol

- ➡ Cafodd drafft o Strategaeth y Gymraeg ei fabwysiadu gan yr APC ar y 29^{ain} o Fawrth 2017. Cyhoeddwyd y drafft ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd fis Mai 2017.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Integreiddio, Cydweithio**

Gweithgaredd: Hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd hanesyddol drwy Gastell Caeriw a Chastell Henllys

62283

o bobl wedi ymweld â Chastell Caeriw a Chastell Henllys yn ystod 2016/17

6248

o blant wedi elwa o'r rhaglen addysg yng Nghastell Henllys a Chaeriw

"Wedi mwynhau'r daith dywys yn sobor ac wedi dysgu llawer am oes yr haearn"

Llyfr Ymwelwyr Castell Henllys


"Cawsom y trip ysgol gorau erioed yng Nghaeriw. Roedd y staff mor gymwynasgar a charedig wrth y plant. Roedd y gweithdai yn hynod fuddiol i'r plant ac yn fodd i ddysgu sgiliau newydd."

Adborth gan Athro

➡ Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Cynnwys y Defnyddwyr

Gweithgaredd: Gweithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i arddangos eu casgliad cenedlaethol yn Oriel y Parc

- ➡ O 22 Mawrth hyd 11 Medi 2016 roedd Oriel y Parc drwy Aspire a'i bartneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi arddangos llun enwog Constable 'Salisbury Cathedral from the Meadows' 1831. Roedd yr arddangosfa hefyd yn cynnwys paentiadau o gasgliad Amgueddfa Genedlaethol Cymru o waith gan Henri Gastinaeu, F.L. Griggs, Samuel Palmer, John Piper, Frank Short, Graham Sutherland, a Turner.
- ➡ Roedd yr arddangosfa wedi'i churadu gan Guradur Prosiectau Partneriaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru, mewn partneriaeth agos â thîm Oriel y Parc. Cynorthwywyd y gwaith o osod yr arddangosfa gan ddau aelod arall o dîm curadurol Amgueddfa Genedlaethol Cymru.



"Diolch i chi am ddod a'r gwaith anhygoel hwn i'r oriel hon a'i fod ar gael yn ddi-dal.

Nid wyf wedi gweld unrhyw beth cyn hyn sydd wedi gwneud i mi deimlo yr hoffwn fod yn berchen ar hwn. Mae'r llun Salisbury Cathedral yn gwbl drawiadol a syfrdanol a gymaint i'w weld ynddo. Bendigedig. Braint yn wir yw bod yma. Anghofia i fyth yr ymweliad hwn. Cwbl anhygoel.

Arddangosfa fendigedig – mor hyfryd gweld llun mor bwysig mewn oriel yng nghefn gwlad. Ardderchog gweld campwaith gwreiddiol un o'r hen feistri"

Cerdyn sylwadau (Rhwydwaith Genedlaethol ar Astudiaethau Constable, Oriel y Parc: Adroddiad Gwerthuso, Anne Millman Associates)

➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Hyrwyddo'r celfyddydau a cherddoriaeth drwy gynnal digwyddiadau yn y canolfannau ymwelwyr

- ➡ Drwy gyfleoedd yn y canolfannau mae'r Awdurdod wedi hyrwyddo amrywiaeth eang o gelf a cherddoriaeth yn 2016/17:

Adrodd Stori	Bu Castell Henllys yn cynnal Chwedlau Antur gan roi cyfle i eistedd o gwmpas y tân a gwrando ar straeon am anturiaethau o'r gorffennol pell yn cael eu hadrodd gan chwedleuwyr lleol. Cafodd dwy sesiwn o hyfforddiant eu cyflwyno yng Nghastell Caeriw a Chastell Henllys gan storiwr proffesiynol ar gyfer y staff yn y lleoliadau hyn, ac eraill yn y Parc Cenedlaethol, gan roi cyfle iddynt gynyddu eu sgiliau a chyflwyno ystod ehangach o weithgareddau.
Theatr Awyr Agored	Cafodd cynrychiadau theatr awyr agored Sense and Sensibility, Ratburger a Nest eu cynnal yng Nghastell Caeriw.
Ffilm	Fis Awst bu Oriel y Parc yn dangos y ffilm Pembrokeshire Drivers, sef ffilm a gomisiynwyd gan Confluence mewn partneriaeth ag APCAP. Mae'r ffilm hon, a wnaed gan Karen

	Ingham, sydd wedi ennill gwobr Bafta, yn rhoi hanes llwybr traddodiadol y porthmyn rhwng Hwlfordd a Marchnad Smithfield.
Arddangosfeydd	Roedd Salisbury Cathedral gan Constable a Reading the Rocks: Mapiau Rhyfeddol William Smith wedi'u harddangos ym mhrif oriel Oriel y Parc ynghyd â rhaglen o arddangosfeydd yn y Tŵr. Bu canolfan ymwelwyr Trefdraeth yn cynnal nifer o arddangosfeydd gan artistiaid lleol gydol y flwyddyn.
Artist Preswyl	Parhaodd Oriel y Parc i gefnogi artistiaid drwy gynllun artist preswyl yr Oriel. Ymhlith yr arddangosfeydd oedd Coastlines gan Lizzie Stonhold ar gysylltiad cymuned â'u hamgylchedd o safbwynt personol, ac arddangosfa Linda Norris <i>ob•serve – colours of an island</i> , sef casgliad o waith a grëwyd ganddi yn dilyn ei chyfnod o chwe wythnos ar Ynys Sgogwm yn ystod tymor yr adar yn mudo a'r tymor bridio.
Llenyddiaeth Plant	Roedd Oriel y Parc wedi cynnal gweithgareddau i ddathlu canmlwyddiant Roald Dahl a phen-blwydd Beatrix Potter yn 150.
Cerddoriaeth	Mae grwpiau a pherfformwyr lleol wedi cymryd rhan mewn ffeiriau haf a dathliadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi amrywio o'r grŵp gwerin Shooting Counters yn perfformio yn ffair haf Oriel y Parc i'r delynores broffesiynol Sarah-Jane Absalom yn diddanu fel rhan o'r dathliadau Gŵyl Dewi yng Nghastell Henllys.
Cerflunwaith	Gellir gweld cerflun o'r Twrch Trwyth o Chwedlau'r Mabinogion yn awr yn Oriel y Parc. Cafodd ei gerflunio gan Darren Yeadon a'i roi i'r APCAP gan Mr Tony Scourfield-Lewis.

56821

o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol yn y canolfannau yn 2016/17, sef cynnydd o'r 44035 yn 2015/16.

➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Cynorthwyo grwpiau cymunedol mewn hanes ac archaeoleg lleol

- ➡ Penododd yr Awdurdod archeolegydd cymunedol fis Ionawr 2017, ac mae ei rôl yn cynnwys gweithio gyda chymunedau a gwirfoddolwyr lleol i gofnodi, monitro a gofalu am safleoedd archeolegol yn y Parc Cenedlaethol.
- ➡ Mae arolwg yn cael ei gynnal o safleoedd henebion yn y Parc sydd mewn perygl. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys rhoi cyngor ymarferol i dirberchnogion yn y Parc sydd â Henebion Cofrestredig a nodweddion archeolegol eraill ar eu tir, yn ogystal â rhoi anerchiadau i'r gymuned ehangach.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Gweithgaredd: Cyngori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ar reoli

- ➡ Mae'r Awdurdod wedi parhau i gynghori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ar y gwaith o'u rheoli drwy Swyddog Cadwraeth Adeiladau yr Awdurdod, gyda nifer yr adeiladau sydd mewn perygl ar 5.7% sy'n is na'r targed o 6%.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Cydweithio**

Gweithgaredd: Defnyddio cyllid CDC i gefnogi prosiectau diwylliannol

- ➡ Mae'r gronfa CDC wedi cynorthwyo prosiect Cadwraeth a Dehongli Odyn Ganoloesol Neuadd Goffa Trefdraeth. Drwy'r prosiect hwn nod y gymuned yw creu atyniad treftadaeth ddiwylliannol newydd drwy warchod odyn grochenwaith ganoloesol (15^{fed} Ganrif), sydd wedi'i chofrestru yn Heneb, a'i hagor i'r cyhoedd.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Amcan Llesiant 7: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang.

Gweithgaredd: Parhau i leihau allyriadau carbon yr Awdurdod

- ➡ Er bod adeilad Pencadlys yr Awdurdod dros 100 oed mae'r adeilad wedi llwyddo i gael graddfa 'B' ac wedi parhau i ostwng ei sgôr o 42 yn 2015/16 i 40 yn 2016/17 ar gyfer ei dystysgrif ynni. Byddai adeilad tebyg o'r oedran a'r maint hwn â sgôr o rhyw 100 a graddfa o D neu E.
- ➡ Rydym wedi adolygu ein dull o gyfrifo allyriadau CO2 yr Awdurdod er mwyn ein galluogi i wella ein dadansoddi er mwyn targedu a chlustnodi'n well ymhle y gellir gwneud gostyngiadau pellach yn y dyfodol.

870313

Cilogram - allyriadau CO2 yr Awdurdod yn 2016/17.

- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio**

Gweithgaredd: Defnyddio 'GwerthwchiGymru' ar gyfer contractau mawr a chaffael

- ➡ Mae pob un o'n tendrau contract mawr yn cael eu cynnig drwy 'GwerthwchiGymru'. Yn 2016/17 cafodd 2 gontract eu cynnig drwy GwerthwchiGymru, a chyfanswm gwerth y ddau gontract oedd £70,000.
- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Integreiddio**

Gweithgaredd: Hyrwyddo brand y 'Parc Cenedlaethol'

40

o ddigwyddiadau'r APCAP gan gynnwys gweithgareddau yn y Canolfannau, a theithiau cerdded dan arweiniad Parcmy'n y Parc i hyrwyddo Wythnos y Parciau Cenedlaethol 2016 (25-31 Gorffennaf).

10

o Barcmy'n leuenctid yn cynorthwyo dros dridiau Sioe Sir Benfro yn hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol.


- ➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Integreiddio, Cydweithio**

Gweithgaredd: Cefnogi prosiectau cynaliadwyedd drwy gynllun grant yr CDC

- ➔ Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy yr Awdurdod yn cynorthwyo prosiectau cynaliadwyedd arloesol sy'n dod â budd cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, i wella ansawdd bywyd cymunedau yn y Parc Cenedlaethol.
- ➔ Yn ystod 2016/17 gwnaed adolygiad o brosiectau CDC hyd yn hyn, a chyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau – roedd 201 o brosiectau wedi elwa o'r gronfa dros yr 16 mlynedd diwethaf.

“Roedd mwy nag 80% o'r prosiectau a ddewiswyd ar hap i'w dadansoddi'n fanylach wedi llwyddo i wireddu eu nod ac yn parhau i weithredu hyd yn hyn, tra bod pob un o'r prosiectau yn cyflawni un neu fwy nag un o egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae nifer ohonynt yn parhau i ddod â budd amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ymhell ar ôl i'r ariannu ddod i ben.”

Emma Taylor, Swyddog CDC, APCAP



- ➔ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr.**

Gweithgaredd: Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i sicrhau gwell canlyniadau

- ➔ Drwy weithio gyda phartneriaid a chymunedau mae'r Awdurdod wedi bod yn cynorthwyo i sicrhau gwell canlyniadau.

Siarter Awyr Agored Sir Benfro	Drwy ymwneud â Siarter Awyr Agored Sir Benfro rydym yn cynorthwyo i hyrwyddo hamdden cynaliadwy, yn cydbwysu anghenion yr amgylchedd â gweithgareddau antur a hamdden drwy arweiniad a chodau gwirfoddoli.
Rhwydwaith Pori Sir Benfro	Rydym yn rhan o Rwydwaith Pori Sir Benfro sy'n cefnogi pori ar draws safleoedd yn Sir Benfro. Mae tan-bori neu bori amhriodol yn rheswm allweddol dros amodau anffafriol i gynefinoedd ar draws y rhwydwaith o safleoedd dynodedig a'r cefn gwlad ehangach.

**Cadeiriau
Olwyn i'r
traeth**

Drwy weithio gyda busnesau lleol mae 8 Cadair Olwyn yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynlluniwyd yn arbennig i'w defnyddio ar draethau tywodlyd ar gael i'w llogi. Yn 2016/17 drwy bartneriaeth gyda Pete a Tracy Tunstall o *Time Flies at the Longhouse* mae Cadair Olwyn Traeth ar gael yn awr yn Freshwater East.

➡ **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ar Waith: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys y Defnyddwyr**

Llywodraethu o fewn yr Awdurdod


Mae'r Awdurdod llawn yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn i ystyried materion polisi a gwneud penderfyniadau ar eitemau heb eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr. Mae'r Awdurdod llawn yn pennu'r gyllideb bob mis Chwefror. Mae'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cyfarfod bob chwe wythnos i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae adroddiad ar berfformiad gweithredol yn cael ei gyflwyno bob chwarter gerbron y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, ac adroddiadau ariannol ac archwilio hefyd yn cael eu cyflwyno bob chwarter gerbron y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol. Gall y ddau bwyllgor adolygu argymhell i'r Awdurdod llawn bod angen gweithredu pellach. Yn ogystal, mae cyfarfodydd wythnosol o'r Tîm Rheoli a chyfarfodydd misol o'r Tîm Arweinyddion yn adolygu perfformiad.

Yn dilyn adolygiad canol tymor mae'r cylch cynllunio perfformiad yn ail-gychwyn i baratoi'r gyllideb a'r blaenoriaethau corfforaethol am y flwyddyn ganlynol gyda chyfres o weithdai a fynychir gan yr Aelodau.

Peilot Adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru

Ar hyn o bryd mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal adolygiad o lywodraethu pob Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru i'w helpu i ymateb i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a heriau'r dyfodol.

Fel rhan o'u hadolygiad, maent wedi cynnal arolwg ar-lein a sesiynau gweithdy gyda staff ac Aelodau yr Awdurdod yn 2016/17.



10

o gwynion ffurfiol wedi'u derbyn a'u cofnodi yn ganolog. APCE - 12. APCBB - 24.